# 30 prosiect dros 30 mlynedd

21/10/2024
I ddathlu ein pen-blwydd ni – a phen-blwydd y Loteri Genedlaethol – gadewch i ni fwrw golwg yn ôl ar rai o’r amryfal brosiectau anhygoel rydym wedi’u cefnogi dros y blynyddoedd.

Ers 1994, rydym wedi buddsoddi dros £8.6 biliwn a godwyd gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol mewn mwy na 47,000 o brosiectau treftadaeth ar draws y DU.

O adeiladau hanesyddol, ein hetifeddiaeth ddiwydiannol a'r amgylchedd naturiol, i gasgliadau, traddodiadau, storïau a mwy – rydym wedi ariannu prosiectau bach a mawr sy'n ymestyn o Ynysoedd Sili i Ynysoedd Erch.

Ar gyfer y flwyddyn dirnod hon dyma rai o’n ffefrynnau: prosiectau sy'n cynrychioli ehangder treftadaeth a'r amrywiaeth anferth o bethau o'r gorffennol yr ydych yn eu gwerthfawrogi ac eisiau eu trosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol.

Dros y 30 diwrnod nesaf, yn barod ar gyfer ein pen-blwydd yn 30 oed ar 19 Tachwedd, byddwn yn rhannu un prosiect y dydd ar gyfer pob un o'n 30 mlynedd, yma ac ar ein sianeli cymdeithasol.

## 2024

### Restore and Reuse Keelmen's Hospital as Affordable Housing

Newcastle upon Tyne, Lloegr

Swm y grant: £437,732


Llun: Shutterstock/Chemival

Adeiladwyd Ysbyty Keelmen fel elusendy yn wreiddiol ym 1701, ond mae wedi bod yn wag ers 15 mlynedd bellach ac mae ar y gofrestr Treftadaeth mewn Perygl. Bydd y prosiect hwn – yr ydym wedi'i gefnogi'n ddiweddar gyda grant rownd ddatblygu – yn archwilio sut y gellir dod â'r adeilad yn ôl i ddefnydd hirdymor drwy ei droi'n dai fforddiadwy, y mae galw mawr amdanynt yn y ddinas. Y nod yw adfer cragen bresennol yr adeilad a thrawsnewid y tu mewn i 20 o fflatiau 1 a 2 ystafell wely ar rent.

# 2023

## Divis and Black Mountain – A View to the Future

Belfast, Gogledd Iwerddon

Swm y grant: £3,357,300



Llun: © National Trust Images/John Millar

Dyma'r man gwyrdd trefol mwyaf yn Belfast, rhan eiconig o orwel y ddinas, ond mae'r gymuned leol i raddau helaeth wedi'i thorri i ffwrdd o'r byd natur hon ar garreg ei drws. Mae ein harian nid yn unig yn cefnogi treftadaeth naturiol y dirwedd – adfer gorgors i leihau colled carbon a gwella ansawdd d?r – ond hefyd yn gwella hygyrchedd drwy greu llwybrau cerdded newydd ac arwyddion dehongli ar gyfer meinciau newydd mewn golygfannau. Bydd y prosiect hefyd yn trawsnewid adeiladau segur ac adfeiliedig yn gaffi a hyb newydd i ymwelwyr ac yn ehangu'r defnydd o ysgubor bresennol i gynnwys gofod arddangos a llety staff.

## 2022

### Doctor Who 60th anniversary heritage project

Manceinion, Lloegr

Swm y grant: £54,765



Llun: Green Croft Arts

Gweithiodd y prosiect hwn gyda phlant ysgol i archwilio gwaith y cerddor electronig arloesol, Delia Derbyshire (1937–2001). Tra'n gweithio yn y BBC yn y 1960au, creodd Delia y trefniant ar gyfer cerddoriaeth agoriadol Doctor Who. Casglwyd hanesion llafar gan wahanol genedlaethau yn coffau ei gwaith a’i dylanwad a rhannwyd ei hetifeddiaeth drwy ddigwyddiadau cyhoeddus. Cymerodd y plant ysgol ran mewn gweithdai 'wobbulator' i greu synau a ysbrydolwyd gan waith Delia hefyd.

## 2021

### UEFA Women's EURO 2022 - Women's Football Heritage (South)

Milton Keynes, Lloegr

Swm y grant: £250,000



Llun: © Amgueddfa Bêl-droed Cymru

I gyd-fynd â Lloegr yn croesawu cystadleuaeth EUROs Merched UEFA, a 141 o flynyddoedd ers i dîm merched Lloegr chwarae’n gystadleuol am y tro cyntaf, gweithiodd y prosiect hwn mewn partneriaeth â Chyngor Rotherham a’r Gymdeithas Bêl-droed (FA) i adrodd storïau arloeswyr benywaidd y wlad yn y gêm.

Bu'n ymchwilio ac yn cofnodi gwybodaeth am bob chwaraewr, capten, sgoriwr gôl a sgôr gêm ar gyfer Lloegr ers 1972, ar yr un lefel â'r wybodaeth sydd eisoes yn bodoli ar gyfer gêm y dynion. Bydd yr wybodaeth, sy'n cael ei lletya ar wefan Pêl-droed Lloegr yr FA, yn parhau i gael ei ddiweddaru gyda manylion chwaraewyr benywaidd y dyfodol.

## 2020

### Curating for Change: D/deaf and Disabled People Leading within Museums

Folkestone a Hythe, Lloegr

Swm y grant: £1,067,300



Nid yw pobl F/fyddar, anabl a niwroamrywiol yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn y sector amgueddfeydd. Chwalodd y prosiect hwn rwystrau i rolau curadurol trwy greu prosesau recriwtio tecach. Bu’n gweithio gyda’r 20 o amgueddfeydd lletya i recriwtio hyfforddeion a chymrodorion gan ddefnyddio dull hyblyg a oedd yn cynnwys y gallu i wneud cais gan ddefnyddio ffilm neu sain yn hytrach na chais ysgrifenedig traddodiadol ac anfon cwestiynau cyfweliad at ymgeiswyr ymlaen llaw. O ganlyniad i'r prosiect, gweithredodd llawer o'r amgueddfeydd a gymerodd ran rai o'r dulliau newydd o weithredu fel rhan o'u harferion recriwtio safonol.

## 2019

### Windrush Cymru - Our Voices, Our Stories, Our History

Caerdydd, Cymru

Swm y grant: £72,200




Gan ymateb i alwad gan henuriaid a oedd am sicrhau bod eu hetifeddiaeth yn cael ei chofnodi am yr oesoedd i ddod, aeth y prosiect hwn ati i warchod hanes anadnabyddus Cenhedlaeth Windrush a gyfrannodd at gymdeithas Cymru. Gwnaeth gasglu deunyddiau a chofnodi atgofion yn ymwneud â’r rhai a gyrhaeddodd

rhwng 1948 a 1988: o ble y daethant, eu storïau am fudo a'u profiadau o greu bywyd newydd yng Nghymru. Arweiniodd hyn at arddangosfa deithiol, cyhoeddiad a deunyddiau addysgu, ac mae popeth a gasglwyd wedi'i roi ar gadw gyda Sain Ffagan Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

## 2018

### Taylor's: Saving the last bellfoundry in Britain

Charnwood, Lloegr

Swm y grant: £4,003,992



Llun: © Katelyn Collins

Gwnaeth ein grant helpu Loughborough Bellfoundry Trust i adfer a gwella'r safle – sydd wedi bod yn gweithredu ers 1859 ac wedi castio mwy na 25,000 o glychau – gan sicrhau y gall ei etifeddiaeth barhau. Fe wnaeth y prosiect recriwtio a hyfforddi prentis i barhau â'r grefft ganrifoedd oed o gastio a thrwsio clychau, ac ailddatblygu amgueddfa'r safle, gan gynnwys ystafell weithgareddau amlbwrpas hygyrch ac ad-drefnu'r archif. Cymerodd dros 50 o wirfoddolwyr ran, o gofnodi hanesion llafar, i ddatblygu teithiau a rheoli arddangosfeydd.

## 2017

### Reimagine, Remake, Replay

Dinas Armagh a Strabane, Gogledd Iwerddon

Swm y grant: £949,600



Yn rhan o'n rhaglen Kick the Dust, bu'r prosiect yn ennyn diddordeb pobl ifanc 16-24 oed mewn amgueddfeydd ar draws Gogledd Iwerddon gan ddefnyddio dulliau creadigol a digidol. Trwy amrywiaeth o glybiau a chyrsiau, rhoddodd gyfle i bobl ifanc leisio'u barn ar faterion a oedd yn bwysig ac yn berthnasol iddynt hwy a'u cyfoedion, ac arddangos eu gwaith eu hunain a wnaed mewn ymateb i eitemau yng nghasgliad yr amgueddfa.

## 2016

### Home of Metal: The relationship between the fans, Black Sabbath and Heavy Metal

Birmingham, Lloegr

Swm y grant: £88,300




Ystyrir Black Sabbath yn gyffredinol fel sylfaenwyr metel trwm, ond y cefnogwyr wnaeth helpu i sefydlu'r genre. Aeth y prosiect hwn ati i gofnodi hanes cymdeithasol trwy archwilio perthnasoedd rhwng cefnogwyr a’r band, a dylanwad tirwedd ddiwydiannol Birmingham a’r Wlad Ddu. Fe wnaeth ein hariannu ei gefnogi i gofnodi storïau a phortreadau o gefnogwyr, gan ganolbwyntio ar daith fyd-eang olaf y band yn 2016–2017.

## 2015

### Lest We Forget

Glasgow, Yr Alban

Swm y grant: £99,300



Llun: Iman Tajik

Bu’r prosiect hwn yn gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn Glasgow i archwilio profiadau ffoaduriaid o Wlad Belg yn Yr Alban yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ogystal â dod o hyd i storïau'r 19,000 o newydd-ddyfodiaid a ddaeth i'r genedl 100 mlynedd yn ôl, cofnodwyd eu profiadau eu hunain o integreiddio a chael eu derbyn fel 'Albanwyr newydd'.

Rhannwyd yr ymchwil newydd a ffilm am y prosiect trwy ddigwyddiadau cyhoeddus ac arddangosfa gelf, gyda’r wybodaeth bellach ar gael i’r cyhoedd ei harchwilio yn y dyfodol.

# 2014

## Scapa Flow Visitor Centre and Museum Restoration and Improvements

Lyness, Ynysoedd Erch, Yr Alban

Swm y grant: £1,159,000




Llun: Orkney.com/Cyngor Orkney

Mae Scapa Flow, Ynys Erch, yn un o borthladdoedd naturiol mwyaf y byd, ac fe'i defnyddiwyd fel canolfan i'r Llynges Frenhinol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd. Mae'r Ganolfan Ymwelwyr a'r Amgueddfa, a grëwyd ym 1990, yn adrodd hanes y miloedd o filwyr a fu'n gweithio yno dros y blynyddoedd a'r gweithrediadau a ddigwyddodd yn yr ardal.

Helpodd ein hariannu i gefnogi datblygiad adeilad newydd ar gyfer arddangosiadau, siop a chaffi a chyfleusterau hygyrch i ymwelwyr. Mae’r amgueddfa’n gofalu am gasgliad o offer milwrol prin, gan gynnwys arteffactau o lynges Yr Almaen a suddwyd yno’n fwriadol ym 1919.

## 2013

### National Disability Arts Collection and Archive (NDACA)

Camden, Llundain, Lloegr

Swm y grant: £953,200




Mae NDACA yn dwyn ynghyd hanes Mudiad Celfyddydau Anabledd y DU, a ddechreuwyd yn y 1970au hwyr, a chwalodd y rhwystrau i bobl anabl a dogfennu’r frwydr trwy gelfyddyd a diwylliant.

Galluogodd ein grant gasglu, catalogio, gwarchod a digideiddio miloedd o ddelweddau ac arteffactau sy'n adrodd hanes y mudiad. Recriwtiwyd gwirfoddolwyr anabl i gymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys casglu hanesion llafar gan y prif gyfranogwyr. Rhannwyd uchafbwyntiau o’r archif trwy arddangosfeydd a digwyddiadau ar draws y DU a chrëwyd gwefan i gartrefu’r archif ddigidol ac adnoddau dysgu.

## 2012

### The Coracle Project

Abertawe, Cymru

Swm y grant: £31,700



Cwch bach un person wedi'i wneud o bren a wehyddir a gorchudd gwrth-dd?r yw cwrwgl. Maent yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn y Rhufeiniaid ac yn dal i gael eu defnyddio heddiw mewn rhai rhannau o Gymru, gan amlaf ar gyfer pysgota.

Gweithiodd y prosiect hwn gyda phobl ifanc ddifreintiedig i’w haddysgu am hanes cwryglau ochr yn ochr â gweithdai ymarferol i adeiladu’r cychod traddodiadol. Dysgwyd sgiliau gwneud ffilmiau i'r bobl ifanc hefyd i ddogfennu'r hyn a ddysgwyd ac a gyflawnwyd ganddynt trwy'r prosiect.

# 2011

## Blyth's Ship Building Heritage

Blyth, Northumberland, Lloegr

Swm y grant: £155,800


Llun: Colin McLean

Ar un adeg yn ardal a phorthladd adeiladu llongau o bwys, yn fwy diweddar mae Blyth wedi profi lefelau uchel o ddiweithdra. Roedd y prosiect hwn yn targedu pobl ifanc 16-30 oed ac yn rhoi cyfle iddynt ennill cymwysterau galwedigaethol lefel mynediad mewn gweithrediadau peirianneg trwy adeiladu cychod traddodiadol.

Mewn pedair blynedd yn unig, tyfodd Blyth Tall Ship o fod yn eginyn o syniad ac yn ddarn o dir diffaith ar lan y cei, i fod yn fusnes newydd ysbrydoledig. O'r 72 o bobl a gymerodd ran yn y cwrs hyfforddi 8 wythnos cyntaf, aeth 40% ymlaen i addysg bellach a daeth 30% o hyd i swyddi.

Yn 2022 enillodd sylfaenydd y prosiect, Clive Grey, Wobr y Loteri Genedlaethol am ei waith sy'n newid bywydau.

## 2010

### Adfer a Dehongli Lido Parc Ynysangharad

Pontypridd, Rhondda Cynon Taf, Cymru

Swm y grant: £2,375,000


Llun: Shutterstock/Ceri Breeze

Adeiladwyd y lido ym 1927 gyda chymorth Cronfa Les y Glowyr, a chroesawodd hyd at 1,000 o bobl ar y pryd yn ei anterth. Yn ystod y blynyddoedd ar ôl y rhyfel parhaodd yn atyniad poblogaidd, ond erbyn dechrau'r 1980au roedd yn dirywio ac fe gaeodd i lawr ym 1991.

Helpodd ein harian i achub y ganolfan restredig Gradd II, gan adfer y lido i ddefnydd y cyhoedd a darparu cyfleusterau modern i ymwelwyr. Roedd y prosiect hefyd yn cynnwys rhaglen uchelgeisiol o ddysgu, hyfforddi a datblygu gwirfoddolwyr i gofnodi a rhannu hanes cymdeithasol cyfoethog y baddonau nofio a Pharc Coffa Ynysangharad lle maent wedi'u lleoli.

# 2009

## Lincoln Castle Revealed

Lincoln, Lloegr

Swm y grant: £12,227,640


Llun: Shutterstock/trabantos

Roedd ein grant yn rhan fawr o brosiect pum mlynedd gwerth £22miliwn i adnewyddu’r castell, a adeiladwyd ym 1068 gan Gwilym Goncwerwr. Wrth i waith adfer ddechrau, darganfu tîm y prosiect brinder crefftwyr treftadaeth, felly creodd Ganolfan Sgiliau Treftadaeth arbenigol, yr adeilad newydd cyntaf yn y castell ers 150 o flynyddoedd.

Bu tîm o 24 o seiri maen yn atgyweirio gwaith cerrig y castell, gan gynnwys taith gerdded gylchol y wal, sydd bellach ar agor i’r cyhoedd, gan gynnig golygfeydd trawiadol ar draws y ddinas. Yn 2015 – y flwyddyn yr ailagorodd – cyrhaeddodd y castell restr fer gwobr y Loteri Genedlaethol.

## 2008

### Cushendun Old Church

Cushendun, Arfordir a Glynnoedd Sarn y Cawr, Gogledd Iwerddon

Swm y grant: £19,200



Yn 2008 dyfarnwyd grant cynllunio prosiect i Cushendun Building Preservation Trust, a oedd wedi bod yn ymgyrchu i Hen Eglwys Cushendun a adeiladwyd yn 1840 ddod yn hyb cymunedol ers iddi gael ei dadgysegru yn 2003.

Talodd y cynllunio hwnnw ar ei ganfed wrth fachu ail grant mwy yn ddiweddarach, a gwireddu uchelgais yr Ymddiriedolaeth o droi hen addoldy Eglwys Iwerddon yn ofod celfyddydol, treftadaeth a chymunedol.

Fe'i defnyddiwyd ers hynny ar gyfer digwyddiadau treftadaeth, cynyrchiadau drama, cyngherddau, cyfarfodydd a gweithgareddau cymunedol. Mae hefyd yn ganolfan wybodaeth a threftadaeth lle gall ymwelwyr ddysgu mwy am Lynnoedd Antrim.

## 2007

### Rosslyn Chapel Conservation and Access Project

Rosslyn, Midlothian, Yr Alban

Swm y grant: £4,500,000



Llun: Shutterstock/Atmosphere1

Wedi'i sefydlu ym 1446, mae gwaith carreg addurnedig y capel wedi diddanu a denu ymwelwyr ers cenedlaethau, hyd yn oed yn fwy felly ers iddo gael sylw yn nofel Dan Brown, 'The Da Vinci Code', yn 2003. Ond erbyn canol y 1990au, roedd y capel rhestredig Categori A mewn perygl oherwydd problemau lleithder.

Cefnogodd ein grant atgyweiriadau carreg a morter i waliau allanol, pinaclau a bwtresi a gwneud y to'n ddiddos. Y tu mewn, cadwyd y ffenestri gwydr lliw, adferwyd yr organ a gosodwyd system wresogi gynaliadwy newydd. Crëwyd canolfan ymwelwyr newydd hefyd i ymdopi â niferoedd cynyddol.

## 2006

### Bumblebee Conservation

Stirling, Midlothian, Yr Alban

Swm y grant: £49,900



Llun: Shutterstock/Keith Hider

Mae poblogaethau cacwn yn gostwng ledled y DU. Helpodd y prosiect hwn i godi ymwybyddiaeth o gyflwr y pryfed a dysgodd y cyhoedd sut i'w cefnogi. Creodd wefan i rannu adnoddau defnyddiol, a chynhaliodd ddigwyddiadau a hyfforddiant mewn adnabod cacwn a rheoli cynefinoedd a hyrwyddo garddio sy’n lledol i gacwn.

Cynhyrchodd 'Beewatch', arolwg cenedlaethol o gacwn, dros 5,000 o gofnodion yn ei flwyddyn gyntaf. Creodd y prosiect hefyd warchodfa cacwn ger Perth a Kinross i helpu rhoi hwb i'w niferoedd.

# 2005

## The restoration of the steam powered tug/tender Daniel Adamson

Frodsham, Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, Lloegr

Swm y grant: £50,000



Llun: © 2016 dan drwydded i London News Pictures

Adeiladwyd y Daniel Adamson, a adnabyddir yn annwyl fel 'y Danny', ym 1903 fel tynfad, gan wasanaethu fel cwch patrôl y llynges yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ddiweddarach, fel llong sifil, fe'i hadnewyddwyd gyda dwy sal?n Art Deco a dec promenâd. Fe'i disgrifiwyd fel fersiwn fechan o longau hwylio cefnforol moethus y dydd.

Ond erbyn dechrau'r 2000au roedd mewn perygl o gael ei golli am byth mewn iard sgrap. Fe'i prynwyd gan edmygwr lleol am £1 a bu ein grant cyntaf yn 2005 yn fodd i ddechrau ar y gwaith o adfer y Danny. Cefnogodd ail grant yn 2015 atgyweiriadau a'i ddychweliad i gyflwr gweithio, gan gynnwys mordeithiau gyda theithwyr.

# 2004

## The Revitalisation of Bosworth Battlefield (Phases II and III)

Hinckley a Bosworth, Lloegr

Swm y grant: £990,000



Cannonballs a geir ar safle'r frwydr

Cefnogodd ein hariannu ymchwiliad i leoli a nodweddu maes brwydr Bosworth ym 1485 lle lladdwyd y Brenin Rhisiart III a diweddaru arddangosfa Canolfan Dreftadaeth Maes y Gad. Daeth y prosiect â thîm o haneswyr, gwyddonwyr, ysgolheigion, archeolegwyr a gwirfoddolwyr ynghyd a gynhaliodd arolwg canfod metel, dadansoddi darganfyddiadau, ail-greu'r tir hanesyddol yn ddigidol ac ail-ddadansoddi ffynonellau sylfaenol y frwydr.

Yn 2010 cyhoeddwyd bod tîm y prosiect wedi nodi union safle’r frwydr: sy'n pontio'r ffordd Rufeinig a elwir yn Fenn Lane, filltir i'r de-orllewin o'r lleoliad a honnwyd yn flaenorol, sef Ambion Hill.

## 2003

### Y Grug a'r Caerau

Sir Ddinbych, Cymru

Swm y grant: £50,000



Hwn oedd cam cyntaf prosiect sy'n rhychwantu Bryniau Clwyd a Mynydd Llandysilio, a gyflwynodd amrywiaeth o waith, o reoli tir ac archaeoleg i fynediad, dehongli ac addysg. Nid yn unig y gwarchododd y

dirwedd ond fe ddatgelodd fwy am nodweddion y safle a pherthynas pobl ag ef dros amser, gan gynnwys tystiolaeth o ddefnydd ohono sy'n dyddio'n ôl i'r Oes Haearn.

Trwy weithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr a chynnwys ystod eang o bobl dros bum mlynedd y prosiect – trwy deithiau cerdded tywys, sgyrsiau, diwrnodau hyfforddi a gweithdai – creodd ymdeimlad gwell o gysylltiad rhwng pobl leol a'u tirwedd a mwy o werthfawrogiad o natur naturiol y safle a'i arwyddocâd hanesyddol.

## 2002

### Restoration of Shibden Hall and Barn

Halifax, Calderdale, Lloegr

Swm y grant: £559,500



Yn un o nifer o grantiau rydym wedi'u dyfarnu i Shibden dros y blynyddoedd, roedd ein cefnogaeth yn gyfraniad at adfer strwythurau hanesyddol yr ystâd, sy'n gweithredu fel amgueddfa, ac yn gyfle i rannu mwy o hanes yr eiddo gyda'r cyhoedd.

Preswylydd enwocaf y stad oedd Anne Lister (1791–1840), tirfeddiannwr, gwraig fusnes, teithiwr a chwiliwr gwybodaeth a oedd hefyd yn ddyddiadurydd toreithiog, lle cofnododd fanylion ei pherthnasoedd lesbiaidd. Cafodd drama'r BBC am fywyd Anne, 'Gentleman Jack', ei ffilmio yn Shibden.

# 2001

## Moors for the Future, Peak District

High Peak, Lloegr

Swm y grant: £3,136,000



Llun: Shutterstock/Robert Harding Video

Fe wnaeth y prosiect partneriaeth graddfa fawr hwn wella bioamrywiaeth y rhostiroedd trwy adfer llystyfiant gorgors ddirywiedig ac adfer llwybrau troed, a fu'n helpu yn ei dro i leihau aflonyddwch i lystyfiant yn y dyfodol.

Canolbwyntiodd hefyd ar ymchwil, cynnal arolygon gwaelodlin o rywogaethau gan gynnwys adar sy'n nythu yn ogystal â defnydd hamdden o'r rhostiroedd ac agweddau ymwelwyr.

Roedd y prosiect hefyd yn enghraifft wych o rannu gwybodaeth, trwy gynnal cynadleddau i drafod heriau a chyfleoedd cyffredin i rostiroedd.

# 2000

## Tower Curing Works Maritime Museum (sef Time and Tide Museum)

Great Yarmouth, Lloegr

Swm y grant: £2,594,500



Llun: Diamond Geezer (CC BY-NC-ND 2.0)

Roedd Tower Fish Curing Works unwaith yn hyb prysur o ddiwydiant yn Great Yarmouth ond caeodd ei ddrysau ym 1988. Helpodd ein grant i drawsnewid y safle – un o’r ffatrïoedd halltu penwaig Fictoraidd sydd wedi’i gwarchod orau yn y DU – yn amgueddfa sy’n adrodd hanes treftadaeth forwrol a physgota gyfoethog yr ardal.

Ers 2004 mae wedi'i hadwaen fel Time and Tide Museum a chyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth Amgueddfa Ewropeaidd y Flwyddyn 2006 a derbyniodd Wobr Sandford am ragoriaeth mewn addysg ar

draws safleoedd treftadaeth yn 2014.

## 1999

### Chatham Historic Dockyard Consolidated Project No 1

Chatham, Medway, Lloegr

Swm y grant: £1,315,000



Llun: Shutterstock/Oszibusz

Un o gyfres o wyth prosiect a fuddsoddodd dros £13miliwn rhwng 1997 a 2006 i warchod a gwella'r iard longau a sicrhau ei dyfodol fel atyniad i ymwelwyr.

Datblygwyd yr iard longau yn sgil Diwygiad Protestannaidd yr 16eg ganrif a chysylltiadau dirywiol â gwledydd Catholig tir mawr Ewrop. Bu’n amddiffynfa bwysig i’r wlad am fwy na 400 mlynedd, ac yn un o gyfleusterau pwysicaf y Llynges Frenhinol, cyn iddi gau ym 1984.

Mae tua 80 erw, sy'n cynnwys craidd y safle o'r 18fed ganrif, bellach yn cael ei reoli gan Chatham Historic Dockyard Trust. Mae'n cynnwys llongau hanesyddol, adeiladau rhestredig, rheilffordd ac amgueddfeydd sy'n olrhain Oes yr Hwylio a hanes llyngesol Prydain.

# 1998

## Birkenhead Park – Restoration Plan

Penbedw, Cilgwri, Lloegr

Swm y grant: £26,800



Llun: Shutterstock/Mandy Jones

Cydnabyddir Birkenhead Park, yr ysbrydoliaeth ar gyfer Central Park yn Efrog Newydd, yn gyffredinol fel parc cyhoeddus cyntaf y DU. Dechreuodd ein perthynas â'r parc ym 1998 pan wnaethom ariannu ei gynllun adfer cychwynnol. Ddwy flynedd wedyn roedd yn barod i wneud cais am grant mwy – a oedd yn llwyddiannus – i ariannu gwaith adfer mawr. Cafodd ei lynnoedd eu gwagio, eu glanhau a'u hadfer, adfywiwyd y pafiliynau criced a'r pontydd, adferwyd y tirlunio ac adnewyddwyd ac agorwyd porthdai'r fynedfa fawr at ddefnydd y gymuned.

## 1997

### Caffael 'Whistlejacket' gan George Stubbs

San Steffan, Llundain, Lloegr

Swm y grant: £8,268,750



Cydnabyddir Whistlejacket fel y paentiad mwyaf uchelgeisiol a gynhyrchwyd gan yr arlunydd o'r 18fed ganrif, George Stubbs. Helpodd ein grant i'w sicrhau i'r genedl, gan roi cartref iddo yn yr Oriel Genedlaethol, Llundain.

Yn dilyn y caffaeliad, teithiodd y paentiad ledled y wlad gan ysbrydoli rhaglen addysg arloesol a fabwysiadwyd wedi hynny gan orielau ac ysgolion ar draws y DU. Ers cael ei arddangos yn barhaus yn yr oriel, mae wedi cael ei gredydu am gynyddu niferoedd ymwelwyr.

## 1996

### Whitby Abbey Headland Project

Whitby, Gogledd Swydd Efrog, Lloegr

Swm y grant: £317,000



Llun: Shutterstock/James Grewer

Adfeilion Gothig dramatig eglwys Benedictaidd o'r 13eg ganrif, a adeiladwyd ar ôl y goncwest Normanaidd, sy'n dominyddu pentir yng Ngogledd Swydd Efrog. Hwn oedd safle ein cyhoeddiad a gosodiad celf treftadaeth Game Changer ddiweddar.

Dros y blynyddoedd – gan ddechrau ym 1996 – rydym wedi dyfarnu mwy na £3.7miliwn i ariannu'r gwaith o adfer a diogelu harddwch naturiol a chymeriad hanesyddol Pentir Whitby, o welliannau i barcio, mynediad a dehongli, i warchod olion sy'n sefyll yr abaty.

# 1995

## Clevedon Pier Head

Clevedon, Gogledd Gwlad yr Haf, Lloegr

Swm y grant: £1,195,313



Llun: Shutterstock/Vortex525

Un o'r grantiau cynharaf a ddyfarnwyd gennym ar ôl i ni gael ein sefydlu ym 1994 oedd cefnogi camau olaf y gwaith o adfer Pier Clevedon. Fe'i hadeiladwyd yn y 1860au gan ddefnyddio hen linellau rheilffordd Barlow diangen o Reilffordd lydan De Cymru Isambard Kingdom Brunel, ac erbyn y 1970au roedd angen ei atgyweirio ar frys.

Ariannodd ein grant y gwaith o adfer decin ac adeiladau y Pier Head ac atgyweiriadau i'r llwyfan glanio concrit. Bu ddathliad mawr i ailagor y pier ym 1998. Yn 2001 dyfarnwyd statws rhestredig Gradd 1 iddo – yr unig bier cyfan yn Lloegr â'r anrhydedd hwnnw.

---

Mynnwch gip ar y prosiectau uchod ar fap.

Dilynwch ni ar gyfryngau cymdeithasol: X/Twitter, Facebook and Instagram.

Oes gennych syniad ar gyfer eich prosiect treftadaeth eich hun? Mynnwch fwy o wybodaeth am yr hyn a ariannwn.

## Efallai y bydd gennych chi ddiddordeb hefyd mewn ...





## vid y gêm' ar draws treftadaeth, tir a natur

Gorsaf Tilbury Riverside.



## treftadaeth cyn ein penblwydd 30

## Grym treftadaeth